





# CYNLLUN PONTIO TEULU YSGOL Y STRADE



Bach yw hedyn pob mawredd





## Cyflwyniad

Mae dogfen Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol, 'Y Wlad sy'n Dysgu', yn ymrwmo i sicrhau gwell pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, er mwyn iddo:

- a) gyfrannu'n sylweddol at godi safonau ar gyfer plant 11-14 oed.
- b) atgyfnerthu'r ymgyrch i ychwanegu gwerth sylweddol i'r safonau a gyflawnir rhwng 7 – 11 oed.
- c) gysylltu â chytundebau rhwng ysgolion ac awdurdodau addysg lleol e.e. y Cytundeb Asesu, a'r Cytundeb Partneriaeth AALI/Ysgolion.

Fel teulu o ysgolion rydym yn ymrwmo i sicrhau fod y pontio o Gyfnod Allweddol 2 i 3:

- a) yn cynnal ac yn adeiladu ar y momentwm a sefydlwyd yng Nghyfnod Allweddol 2.
- b) yn sicrhau disgwyliadau priodol uchel o'r hyn y gall pob disgybl ei gyflawni.
- c) yn sicrhau dilyniant a chynnydd wrth gynllunio a chyflawni'r cwricwlwm.
- d) yn sicrhau datblygu sgiliau allweddol llythrennedd, rhifedd a TGCh.
- e) yn gwella ansawdd dysgu ac addysgu yn barhaus drwy bartneriaeth a rhannu arfer.
- f) yn sicrhau bod cysylltiadau bugeiliol yn eu lle i gwrdd ag anghenion personol a chymdeithasol pob plentyn.

Rydym am i'n disgyblion deimlo:

- a) eu bod yn gymdeithasol barod ar gyfer camu ymlaen i'w hysgol uwchradd newydd
- b) eu bod yn hapus ac yn ddiogel yn eu hysgol newydd
- c) eu bod yn symud ymlaen ac yn cynyddu yn eu haddysg
- d) bod eu cyflawniadau neu alluoedd academiaidd, personol, diwylliannol a chwaraeon yn cael eu cydnabod, eu defnyddio, ac y gwneir y mwyaf ohonynt.



**1. RHEOLI, CYDLYNU A GWERTHUSO'R TROSLWYDDO (\*gellir dileu, newid neu ategu yn ôl yr angen)**

<u>Gweithred</u>	<u>Pryd?</u>	<u>Yn cynnwys pwy?</u>	<u>Canlyniad</u>
1.1 Cyfarfodydd cyson o'r Penaethiaid i oruchwylio gweithrediad y cynllun, a gwerthuso ei lwyddiant.	O leiaf unwaith bob tymor	Penaethiaid (a staff / llywodraethwyr allweddol eraill) o holl ysgolion y teulu.	
1.2 Ysgrifennu, gweithredu a monitro polisiau cytun ar y cyd mewn meysydd megis 'dysgu ac addysgu', 'asesu', 'thracio cynnydd'.	Ar waith	Penaethiaid mewn cydweithrediad â staff drwy Cymunedau Dysgu Proffesiynol ac yn cael ei weithredu ar draws holl ysgolion y teulu.	

**2. CYD-GYNLLUNIO'R CWRICWLWM (\*gellir dileu, newid neu ategu yn ôl yr angen)**

<u>Gweithred</u>	<u>Pryd?</u>	<u>Yn cynnwys pwy?</u>	<u>Canlyniad</u>
2.1 Cyfarfodydd ar y cyd i gynllunio'r cwricwlwm yn y pynciau craidd – gyda'r ffocws ar sgiliau yn hytrach na chynnwys.	Blynyddol	Adrannau craidd ysgolion uwchradd, a chyd-gysylltwyr pwnc y cynradd.	
2.2 Diwygio'r unedau pontio yn y pynciau craidd gyda'r ffocws ar sgiliau.	Erbyn Tymor y Gwanwyn	Staff B6 a 7 yn y pynciau perthnasol	
2.3 Defnyddio AMDRO (Intranet y Sir) a gwefannau ysgolion unigol er mwyn i holl ysgolion y teulu gael mynediad i gynlluniau gwaith a strategaethau dysgu ac addysgu.	Ar waith	Holl staff	



**3. SICRHAU PARHAD MEWN DULLIAU ADDYSGU A DYSGU (\*gellir dileu, newid neu ategu yn ôl yr angen)**

<u>Gweithred</u>	<u>Pryd?</u>	<u>Yn cynnwys pwy?</u>	<u>Canlyniad</u>
3.1 Cytuno ar ddefnyddio unedau pontio yn yr agweddau neu bynciau canlynol – mathemateg, saesneg, cymraeg a gwyddoniaeth	Dros y flwyddyn	Athrawon blwyddyn 6, ac athrawon pwnc blwyddyn 7.	
3.2 Diwrnod i ddisgyblion Bl 5/6 i flasau bywyd yn yr uwchradd, gan ddilyn amserlen uwchradd.	Blynyddol	Disgyblion ac athrawon blwyddyn 6, a holl staff yr uwchradd.	
3.3 Disgyblion cynradd yn ymweld â'r Ffair Gwyddoniaeth a Mathemateg.	Blynyddol	Adrannau perthnasol	
3.4 Sesiynau hyfforddiant ar-y-cyd ar faterion o ddiddordeb a pherthnasedd cyffredin e.e. sgiliau meddwl, datblygu sgiliau allweddol, dinasyddiaeth byd eang a.y.b.	Blynyddol	Holl staff	

**4. SICRHAU CYSONDEB MEWN ASESU, MONITRO AC OLRHAIN CYNNYDD DISGYBLION (\*gellir dileu, newid neu ategu yn ôl yr angen)**

<u>Gweithred</u>	<u>Pryd?</u>	<u>Yn cynnwys pwy?</u>	<u>Canlyniad</u>
4.1 Y cytundeb asesu'n cael ei weithredu'n gyson.	Parhaol	Holl staff ysgolion y teulu.	
4.2 Y defnydd o ddyddiau cau strategol gyda'r ffocws ar faterion yn ymwneud ag asesu.	Blynyddol	Holl staff ysgolion y teulu.	
4.3 Y defnydd o bortffolio asesu teulu cyfan yn y pynciau craidd.	Parhaol	Athrawon pynciau craidd yr uwchradd, a holl athrawon y cynradd.	



**5. SICRHAU CYSYLLTIADAU BUGEILIOL EFFEITHIOL (\*gellir dileu, newid neu ategu yn ôl yr angen)**

<u>Gweithred</u>	<u>Pryd?</u>	<u>Yn cynnwys pwy?</u>	<u>Canlyniad</u>
5.1 Sesiynau hyfforddiant ar y cyd ar faterion perthnasol.	Yn ol y galw	Holl staff	
5.2 Ymweliad gan Bennaeth yr ysgol uwchradd (neu aelod o staff perthnasol) i siarad gyda disgyblion Blwyddyn 6 a'u paratoi ar gyfer eu hysgol newydd.	Blynyddol	Pennaeth yr Ysgol Uwchradd (neu aelod o staff perthnasol)	
5.3 Defnyddio disgyblion o'r uwchradd fel Mentoriaid i siarad gyda phlant blwyddyn 6, ac ateb eu cwestiynau am fywyd yn yr ysgol uwchradd.	Blynyddol	Disgyblion Bl 10	
5.4 Cynnwys plant blwyddyn 6 mewn gweithgaredd chwaraeon neu gelfyddydol CA2/3.	Blynyddol	Adrannau perthnasol ac athrawon Blwyddyn 6	
5.5 Profiad preswyl i holl blant blwyddyn 6 y teulu.	Blynyddol	Athrawon blwyddyn 6, ac aelodau o Fl 12/13 fel rhan o'r BAC	

**6. RHANNU GWYBODAETH AM GYRHAEDDIAD, PRESENOLDEB AC YMDDYGIAD DISGYBLION (\*gellir dileu, newid neu ategu yn ôl yr angen)**

<u>Gweithred</u>	<u>Pryd?</u>	<u>Yn cynnwys pwy?</u>	<u>Canlyniad</u>
6.1 Y manylion creiddiol canlynol yn cael ei drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd: <ul style="list-style-type: none"><li>Lefelau diwedd CA2 yn y pynciau craidd – gan gynnwys lefelau Targedau Cyrhaeddiad unigol.</li><li>Marciau a sgorau'r profion safonol sydd o fewn y Cytundeb Asesu.</li></ul>	Dros y flwyddyn	Prifathrawon cynradd a chyd-gysylltwyr asesu, athrawon blwyddyn 6, a staff perthnasol o'r uwchradd (BW/MT)	



<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cofnodion presenoldeb</li> <li>• Manylion ADY, gan gynnwys CAU a/neu ddatganiad (lle'n berthnasol)</li> <li>• Cynllun Cynnal Ymddygiad (lle'n berthnasol)</li> <li>• Copïau o adroddiadau blwyddyn 6, gan gynnwys safonau cyflawniad yn y pynciau sylfaen ac Addysg Grefyddol.</li> <li>• Manylion am sgiliau neu lwyddiant arbennig.</li> <li>• Unrhyw fanylion perthnasol ychwanegol a allai effeithio ar drosglwyddo llwyddiannus.</li> <li>• Grwpiau targed Marc Safon Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ar ddiwedd BI 6.</li> </ul> <p>6.2 Adborth ar gynnydd disgyblion blwyddyn 7 i'r ysgolion cynradd perthnasol.</p> <p>6.3 Adborth am ganlyniadau asesiadau CA3 i'r ysgolion cynradd perthnasol.</p>	<p>Tymor yr Haf</p> <p>Blynyddol, ar ddechrau tymor yr Hydref</p>	<p>Pennaeth Cynorthwyol (BW)</p> <p>Cyd-gysylltydd asesu uwchradd</p>	
--	---	---	--

**7. CYFLEU ANGHENION DYSGU DISGYBLION AG ANGHENION ADDYSGOL YCHWANEGOL (\*gellir dileu, newid neu ategu yn ôl yr angen)**

<u>Gweithred</u>	<u>Pryd?</u>	<u>Yn cynnwys pwy?</u>	<u>Canlyniad</u>
7.1 Adolygiadau blynyddol ar y cyd i ddisgyblion AAA.	Blynyddol	SENCO yr ysgol uwchradd a SENCO yr ysgol gynradd berthnasol.	
7.2 Cyfarfodydd cyson i adolygu cynnydd disgyblion AAA, a chynllunio darpariaeth ar eu cyfer ym mlwyddyn 7.	Bob tymor	SENCO yr ysgol uwchradd ac athrawon blwyddyn 5/6.	





Diweddarwyd: Reviewed:	
Derbyniwyd gan y Corff Llywodraethol: Received by the Governing Body:	
Llofnod y Cadeirydd: Signature of Chairperson:	

